Ask for/Gofynnwch am Deborah Weston
Our Ref/Ein Cyf DW/LlanwernLRB
Your Ref/Eich Cyf
Tel/Ffôn 01633 210631
Direct Dial/Rhif Union 01633 210631
DX
E-Mail/E-Bost school.reorg@newport.gov.uk

**Education Service**

**Gwasanaeth Addysg**

Newport City Council
Cyngor Dinas Casnewydd

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

2nd February 2018

Dear Stakeholder

**Proposal to remove the Learning Resource Base from Llanwern High School**

The full statutory consultation process has now concluded on the proposal by Newport City Council to permanently remove the Learning Resource Base from Llanwern High School.

One objection was received during the statutory notice stage and as a result the final determination was referred to full Cabinet. It was confirmed at the Cabinet meeting that there were no young people in the Learning Resource Base at present, as all pupils had been moved to either alternative small group provisions in host schools, or small nurture groups which were more suitable to their specific needs.

The closure of the Base was linked to budget savings from 2017/18 and carry over to 2018/19. However the main focus of the change was to achieve better value for money and improved, sustainable support through re-integration to mainstream and placement in other settings for this particular group of pupils.

Cabinet Members spoke in support of the proposal, highlighting the positive moves for previous Learning Resource Base pupils to alternative settings, and that alternative employment had been offered to all affected staff. It was noted that no complaints or objections had been received from pupils or their families, and officers were commended for the extent of the consultation which provided a strong evidence base for this decision.

I am pleased to confirm therefore that the final decision has been taken to implement the proposal.

Further information is available on the Council website at:
http://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/School-reorganisation/Llanwern-High-school-LRB.aspx

Yours sincerely

Sarah Morgan

**Sarah Morgan**
**Prif Swyddog Addysg**
**Chief Education Officer**

Ask for/Gofynnwch am **Deborah Weston**
Our Ref/Ein Cyf **DW/FDMCIW**
Your Ref/Eich Cyf
Tel/Ffôn **01633 210631**
Direct Dial/Rhif Union **01633 210631**
DX
E-Mail/E-Bost school.reorg@newport.gov.uk

**Education Service**
**Gwasanaeth Addysg**

Newport
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
Casnewydd

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

2 Chwefror 2018

Annwyl Randdeiliad

**Cynnig i gau Canolfan Adnoddau Dysgu Ysgol Uwchradd Llanwern**

Mae’r broses ymgynghori statudol llawn ar y cynnig gan Gyngor Dinas Casnewydd i gau Canolfan Adnoddau Dysgu Ysgol Uwchradd Llanwern yn barhaol wedi dod i ben.

Derbyniwyd un gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hysbysu statudol ac yn sgil hynny cyfeiriwyd y penderfyniad terfynol at y Cabinet llawn. Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Cabinet nad oedd unrhyw bobl ifanc yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar hyn o bryd, am fod y disgyblion oll wedi symud un ai i ddarpariaethau llai mewn ysgolion eraill, neu grwpiau meithrin bychain oedd yn fwy addas i’w hanghenion penodol.

Roedd cau’r Ganolfan yn gysylltiedig ag arbedion cyllidebol o 2017/18 a chario drosodd i 2018/19. Fodd bynnag prif ffocws y newid oedd cael gwell gwerth am arian a chefnogaeth well, gynaliadwy trwy ailintegreiddio i’r brif ffrwd a gosod mewn lleoliadau eraill i’r grŵp arbennig yma o ddisgyblion.

Siaradodd Aelodau cabinet o blaid y cynnig, gan gyfeirio at symudiadau blaenorol llwyddiannus gan ddisgyblion Canolfannau Adnoddau Dysgu i leoliadau gwahanol, a bod cyflogaeth amgen wedi ei chynnig i unrhyw staff yr effeithiwyd arnyn nhw.  Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw gwynion na gwrthwynebiadau gan ddisgyblion na’u teuluoedd, ac fe ganmolwyd swyddogion am drylwyredd yr ymgynghori a roes sail gref o dystiolaeth i’r penderfyniad.

Felly, rwy’n falch o allu cadarnhau bod y penderfyniad terfynol wedi’i wneud i weithredu’r cynnig.

Ceir gwybodaeth bellach ar wefan y Cyngor yn:
http://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/School-reorganisation/Llanwern-High-school-LRB.aspx

Yn gywir

Sarah Morgan

**Sarah Morgan**
**Prif Swyddog Addysg**